Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Briff polisi
Chwefror 2021

# Ymateb addysg i'r Coronafeirws: Goblygiadau i ysgolion yng Nghymru

## Crynodeb

Mae pandemig y Coronafeirws wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau addysgol presennol ledled y byd. Amcangyfrifir y bydd blynyddoedd o gynnydd o ran gwella mynediad at addysg a'i hansawdd yn cael eu colli, a rhaid i'r camau fydd yn cael eu cymryd i leihau'r effaith hefyd geisio creu system addysg decach wrth symud ymlaen (Cenhedloedd Unedig, 2020).

Yn ogystal â thargedu cyllid ac adnoddau i leihau'r risg i gyrhaeddiad pob person ifanc (Llywodraeth Cymru, 2020), bydd polisïau addysg tymor hwy yn elwa o sylfaen dystiolaeth gref a fydd yn ei gwneud yn bosibl:

i) Datblygu a gweithredu dysgu[1] ac asesu cyfunol sy'n cynnwys plant tlotach a'r rhai sydd ag anghenion dysgu neu hygyrchedd ychwanegol.

ii) Nodi'r arfer gorau wrth ddylunio a darparu datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon a chynorthwywyr addysgu.

Mae cynllunio a galluogi ffyrdd newydd o weithio o ganlyniad i'r pandemig yn gosod gofynion ychwanegol ar ysgolion. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad ychwanegol i ddarparu'r gallu ychwanegol sydd ei angen fel nad yw addysg yn cael ei darfu wrth i'r staff addysgu weithredu newidiadau ac ymgymryd â'r datblygiad proffesiynol angenrheidiol.

Mae'r nodyn briffio hwn yn crynhoi canfyddiadau ystyriaeth gychwynnol o'r dystiolaeth ar rai o brif elfennau'r ymateb addysg i bandemig y Coronafeirws, gan dynnu ar ddulliau rhyngwladol a allai fod yn berthnasol i ymateb addysg Cymru. Cyhoeddir adolygiadau tystiolaeth sy'n syntheseiddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael ar y tri phwnc canlynol y flwyddyn nesaf:

- Addysgu a dysgu cyfunol (gan gynnwys darpariaeth anghydamserol);
- 'Ymyriadau dal i fyny'; a
- Modelau dysgu a datblygu proffesiynol.

> **Mae'n rhaid i flaenoriaethau addysg yng Nghymru gydbwyso lles cymdeithasol ac emosiynol myfyrwyr ac athrawon â dal i fyny ar golledion dysgu a lleihau ehangiad y bwlch cyrhaeddiad.**

### Effaith y Coronafeirws ar gyrhaeddiad yn ysgolion Cymru

Yng Nghymru, mae tua 29% o blant yn byw mewn tlodi cymharol o ran incwm, ac mae gan oddeutu 18% o bobl ifanc 5-18 oed hawl i

[1] Mae dysgu cyfunol fel arfer yn cyfuno addysg gartref ar-lein (dysgu o bell) ag addysgu ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb traddodiadol ac yn aml mae hefyd yn cynnwys cyfnodau o astudio annibynnol. Mae dysgu cyfunol cydamserol yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle mae disgyblion yn mynd trwy'r llwybr dysgu gyda'i gilydd yng nghwmni eu hathro tra bo dysgu cyfunol anghydamserol yn digwydd mewn gwahanol amseroedd a lleoedd sy'n benodol i bob disgybl. Mewn dysgu anghydamserol, mae athrawon fel arfer yn gosod nodau a thasgau dysgu ac mae myfyrwyr yn dilyn ar eu cyflymder eu hunain.

brydau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru, 2019; Ystadegau ar gyfer Cymru, 2019). Mae yna fwlch cyrhaeddiad addysgol eisoes rhwng plant o gefndiroedd cyfoethocach a tlotach, gydag amcangyfrif o fwlch o 16% mewn cyrhaeddiad yn 11 oed, sy'n cynyddu i 32% erbyn lefel TGAU (Sefydliad Joseph Rowntree, 2018). Er bod y bwlch yn 11 oed wedi culhau ers 2004-05, pan oedd yn 26%, disgwylir y bydd effaith economaidd y Coronafeirws yn dadwneud y cynnydd diweddar.

Amcangyfrifodd asesiad tystiolaeth cyflym gan y Sefydliad Gwaddol Addysg (EEF, 2020a), a oedd yn defnyddio astudiaethau o ysgolion yn cau dros y gwyliau yn hanesyddol, fod yr achosion diweddar o gau ysgolion, sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws, yn debygol o ehangu'r bwlch cyrhaeddiad rhwng 11% a 75% yn Lloegr. Mae'r effaith ar y bwlch cyrhaeddiad yng Nghymru yn debygol o fod yn debyg. Er bod ansicrwydd ynghylch maint yr effaith, mae adroddiad diweddar gan Ofsted (2020) yn awgrymu, ers dechrau'r pandemig, fod plant wedi llithro'n ôl mewn sgiliau sylfaenol ac wedi profi colledion addysgol a chynnydd mewn gofid meddwl. Mae Estyn, y corff cyfatebol yng Nghymru, wedi atal arolygiadau yn ystod y pandemig, ond mae'n debygol bod myfyrwyr yng Nghymru wedi profi canlyniadau negyddol tebyg o ganlyniad i gau ysgolion.

Mae'n rhaid i flaenoriaethau addysg yng Nghymru gydbwyso lles cymdeithasol ac emosiynol myfyrwyr ac athrawon â dal i fyny ar golledion dysgu a lleihau ehangiad y bwlch cyrhaeddiad.

## Anghydraddoldebau addysgol

Roedd cau ysgolion yn gofyn am arloesi cyflym mewn addysgu yng Nghymru; wrth edrych at y dyfodol, mae'n rhaid i ni sicrhau nad yw dulliau dysgu newydd yn cynyddu anghydraddoldebau addysgol.

Pan gaeodd ysgolion yng Nghymru ym mis Mawrth 2020 ar gyfer mwyafrif y plant, digwyddodd y newid i ddysgu o bell a dysgu cyfunol yn gyflym ac mewn amgylchedd ansicr. Ailagorodd y mwyafrif o ysgolion ym mis Medi 2020 ar gyfer pob myfyriwr, ond bydd llawer o fyfyrwyr yn parhau i brofi model dysgu cyfunol oherwydd pandemig parhaus y Coronafeirws. Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn dangos bod plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, sydd o aelwydydd un rhiant, sydd â rhieni llai addysgedig, ac sydd ag etifeddiaeth pobl dduon, Bacistanaidd a Bangladeshaidd wedi treulio cryn dipyn yn llai o amser ar waith ysgol gartref na'u cyfoedion tra oedd yr ysgolion wedi cau o ganlyniad i'r Coronafeirws (Bayrakdar a Guveli, 2020). Yn ogystal, nid yw grwpiau ag anghenion ychwanegol, a disgyblion ag amgylcheddau cartref anodd bob amser wedi derbyn cefnogaeth ddigonol (Daniels ac eraill, 2020).

Roedd lleihau'r bwlch cyrhaeddiad addysg a oedd yn bodoli eisoes yn faes ffocws i Lywodraeth Cymru cyn pandemig y Coronafeirws (Llywodraeth Cymru, 2017). Bydd y penderfyniad i barhau i ddarparu prydau ysgol am ddim tra bo ysgolion ar gau, dros y gwyliau a lle nad yw plant yn gallu mynychu'r ysgol yn helpu i leihau'r baich ariannol ar deuluoedd ac atal plant rhag llithro'n ôl yn eu hastudiaethau. Yn ystod misoedd y gaeaf, bydd tlodi tanwydd yn gwaethygu ac yn effeithio ar iechyd plant a'u gallu i ddysgu (Tai Cymunedol Cymru, 2019). Mae'n debyg mai cadw ysgolion ar agor i'r plant mwyaf agored i niwed fydd y ffordd orau o amddiffyn dysgu a lles. Gall yr enghreifftiau isod fod o gymorth wrth ddatblygu ffyrdd o gadw plant agored i niwed yng Nghymru yn yr ysgol a'u cefnogi pan fydd ysgolion ar gau:

- Yn yr Ariannin, ataliwyd addysgu wyneb yn wyneb ar anterth y pandemig. Fodd bynnag, bu athrawon yn gweithio mewn sifftiau i ddarparu adnoddau addysgu a bwyd i'r myfyrwyr oedd angen y mwyaf o gefnogaeth (OECD, 2020).
- Yn Japan, ers mis Mehefin mae myfyrwyr wedi mynychu dosbarthiadau wyneb yn wyneb bob yn ail ddiwrnod fel mai hanner llawn yn unig yw'r ysgolion. Mae'r myfyrwyr yn dawel ac yn cadw pellter cymdeithasol amser cinio, ac maent yn cael gwiriadau tymheredd dyddiol (Spiers, 2020).

- Yn Uruguay, daethpwyd â myfyrwyr a oedd yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at ddysgu ar-lein a myfyrwyr hŷn ysgolion uwchradd yn ôl i ystafelloedd dosbarth yn ystod haf 2020. Yna trefnwyd i weddill y myfyrwyr ddychwelyd am yn ail, gan ddechrau gydag ardaloedd nad ydynt yn drefol (UNICEF, 2020).

## Dysgu cyfunol

Mae dysgu cyfunol yn debygol o barhau am gryn amser ac efallai mai cydbwysedd rhwng dysgu gartref a dysgu wyneb yn wyneb yw'r ffordd fwyaf diogel a mwyaf effeithiol i ysgolion weithredu, er bod y dystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd dysgu cyfunol mewn ysgolion yn gymysg ac yn debygol o ddibynnu ar ansawdd yr addysgu a mynediad at dechnoleg (EEF, 2020b).

Canfu adolygiad rhyngwladol diweddar o ddysgu cyfunol yng nghyd-destun yr ysgol effeithiau cadarnhaol i raddau helaeth wrth ystyried dysgu digidol (Topping, Douglas a Robertson, 2020). Darganfuwyd hyn ar gyfer myfyrwyr o bob oed ac, yn arbennig, roedd y canfyddiadau hefyd yn gadarnhaol ar gyfer myfyrwyr tlotach a'r rheini ag anghenion ychwanegol ar ôl iddynt gael yr adnoddau angenrheidiol. Gan nad dysgu cyfunol oedd y norm yng Nghymru cyn 2020, gall gymryd amser i ymgorffori'r seilwaith a chefnogaeth angenrheidiol. Er enghraifft:

- Mae dysgu ac asesu rhithwir wedi cael eu defnyddio'n helaeth ers cryn amser mewn sawl gwlad, gan gynnwys Estonia a'r Ffindir (NCEE, 2020; Banc y Byd, 2020). Er enghraifft, mae Asiantaeth Genedlaethol Addysg y Ffindir yn arwain ysgolion i ddarparu dysgu cyfunol, a sefydlir platfformau ar-lein i alluogi cyfathrebu rhwng cartrefi ac ysgolion. Mae'n ymarferol y bydd dysgu ac asesu rhithwir dros amser hefyd yn dod yn norm yn system addysg Cymru.
- Mae cydweithredu yn bwysig mewn dysgu cyfunol (Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol, 2020). Mae hyn yn cynnwys ysgolion yn rhannu adnoddau, cyfathrebu aml â rhieni / y rhai sy'n rhoi gofal, a chyfleoedd i fyfyrwyr ac athrawon ffurfio cymunedau ar-lein tebyg i'r rhai a geir wrth ddysgu yn yr ystafell ddosbarth (Borup ac eraill, 2020).
- Mae yna lawer o rwydweithiau rhyngwladol sy'n darparu cyfleoedd cydweithredu[2] yn ogystal ag adnoddau ar gyfer deall sut y gellir defnyddio technoleg i hwyluso dysgu.

## Cynhwysiant digidol

Yn gyffredinol, mae dysgu cyfunol yn gofyn am fand eang cyflym a thabled neu gyfrifiadur ar gyfer dysgu yn y cartref. Er mwyn mynd i'r afael ag allgau digidol yn ystod pandemig y Coronafeirws, dyrannodd Llywodraeth Cymru arian i roi mynediad i ddisgyblion at ddeunyddiau a dosbarthiadau dysgu ar-lein. Heb amgylchedd dysgu gartref addas, ni fydd mynediad digidol yn ddigon i atal anghydraddoldebau rhag ehangu, ond mae mynediad at ddeunyddiau dysgu yn gam pwysig tuag at gyflawni system addysg decach (Hampton, 2020). Mae yna rai enghreifftiau rhyngwladol o wneud y mwyaf o gynhwysiant digidol mewn addysg y gallai Cymru eu hymgorffori yn y tymor canolig i'r tymor hir.

- Yn Estonia, mae mynediad i'r rhyngrwyd wedi'i ystyried yn hawl ddynol er 2001. Mae sgiliau digidol, rhyngrwyd cyflym a seilwaith TG eang wedi'u blaenoriaethu yn ystod y degawdau diwethaf. Fel y Ffindir, roedd systemau dysgu digidol a rheoli ysgolion wedi'u sefydlu'n dda ac yn gallu addasu'n gyflym i gau ysgolion. Pan fu ysgolion yn cau o ganlyniad i'r Coronafeirws, bu tîm o dechnolegwyr addysgol yn gweithio gydag ysgolion i gynorthwyo athrawon i ddefnyddio adnoddau digidol lle bo angen. Mewn cydweithrediad â saith gwlad Ewropeaidd arall, gwnaeth Estonia yr

[2] Gweler: https://www.globaledguide.org/resources

holl offer addysg ddigidol yn rhad ac am ddim ac yn hygyrch yn rhyngwladol (E-Estonia, 2020).

- Mae llu o wledydd, gan gynnwys Colombia, Croatia, Bwlgaria ac Awstria, yn darlledu pob deunydd addysgol ar y teledu a radio (Banc y Byd, 2020). Mae adnodd o'r fath yn golygu bod llai o ddibyniaeth ar adnoddau digidol a darlledir dosbarthiadau ar amseroedd penodol, sy'n galluogi cynnal strwythur tebyg i ddysgu wyneb yn wyneb. Gellid datblygu darlledu addysgol yng Nghymru ymhellach i ddarparu ar gyfer y rhai heb fynediad i'r rhyngrwyd.

## Diogelu ac iechyd meddwl

Daw cyfran fawr o atgyfeiriadau diogelu i wasanaethau cymdeithasol oddi wrth ysgolion, a chyda cyswllt llai aml bydd gan athrawon lai o gyfleoedd i nodi myfyrwyr sy’n agored i niwed.

Ni all hyd yn oed y platfformau dysgu ar-lein mwyaf soffistigedig a mynediad digidol cynhwysol ddisodli'r gefnogaeth mae amgylcheddau ysgolion yn ei darparu.

Mae llai o gyswllt wyneb yn wyneb yn broblem enfawr ar adeg pan mae ffactorau risg fel tlodi, cam-drin domestig a cholli rhwydweithiau cymorth teuluol yn cynyddu (Usher ac eraill, 2020). Mae arolwg Young Minds (2020) hefyd wedi tynnu sylw at yr effaith negyddol ar bobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl presennol, a bydd gwahanu oddi wrth rwydweithiau cymorth wedi effeithio ar y rheini sydd â materion iechyd meddwl presennol neu ddim, a nodwyd hefyd mewn sesiwn friffio Ofsted ym mis Hydref (Ofsted, 2020). Isod mae rhai ffyrdd posibl o gefnogi myfyrwyr, er nad yw'n hawdd mynd i'r afael â materion diogelu:

- Mae ysgolion yn y DU wedi bod yn cysylltu â phobl ifanc agored i niwed a'r rhai nad ydyn nhw'n ymgysylltu â dysgu ar-lein (e.e. Ysgol Gynradd Elmhurst, 2020), er bod problemau ynglŷn â chapasiti yn golygu y bydd maint y gefnogaeth yn wahanol rhwng ysgolion. Byddai dyrannu adnoddau ariannol i ysgolion i ddarparu'r cymorth diogelu, dysgu ac iechyd meddwl angenrheidiol yn helpu i lenwi'r bwlch a adewir gan lai o amser yn yr ystafell ddosbarth.
- Ym Mhacistan, mae athrawon wedi'u hyfforddi i nodi a rheoli problemau emosiynol ac ymddygiadol mewn plant sy'n mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd trwy raglen hyfforddi ar-lein a ddatblygwyd yn arbennig sydd wedi'i hintegreiddio i blatfformau addysg parhaus yr athrawon (Banc y Byd, 2020).
- Efallai y bydd angen adolygu polisïau ar waharddiadau a darpariaeth amgen mewn rhai ysgolion i sicrhau nad yw pobl ifanc ag anghenion dysgu ac ymddygiad ychwanegol yn cael eu gadael ar ôl.
- Gwnaeth gwaith ymchwil diweddar gan Brifysgol Manceinion ymchwilio i ddull therapi hyblyg yn yr ysgol, gan ganfod gostyngiadau addawol yn straen myfyrwyr a mwy o rymuso (Churchman, Mansell a Tai, 2020). Gall y mathau hyn o wasanaethau ddarparu dewis arall yn lle gwasanaethau iechyd meddwl cyffredinol i rai myfyrwyr ar adeg pan nad oes gan wasanaethau'r GIG y gallu i weld pob myfyriwr sy'n chwilio am gymorth iechyd meddwl.

## Asesiadau

Cafodd arholiadau eu canslo yng Nghymru yn ystod haf 2020 a chafwyd asesiadau athrawon yn eu lle. Roedd hyn yn dilyn penderfyniad cynharach i ddefnyddio algorithm i ddyfarnu graddau, a arweiniodd at israddio graddau llawer o fyfyrwyr o'u cymharu â'r graddau a ragwelwyd ar eu cyfer. Mae arholiadau wedi'u canslo yn 2021 yng Nghymru ac wedi eu disodli gan asesiadau ystafell ddosbarth a fydd yn cael eu gosod a'u marcio'n allanol. Nod y dull arfaethedig hwn yw lleihau goddrychedd, a chyda hynny'r risg y bydd myfyrwyr yn cael eu

hisraddio oherwydd tuedd ymwybodol neu ddiarwybod (Taylor, 2020). Er hynny, bydd profiadau dysgu yn 2020 yn effeithio ar berfformiad yn asesiadau'r flwyddyn nesaf, ac mae'n rhaid ystyried hyn wrth gynllunio a graddio asesiadau ystafell ddosbarth.

Mae'n debygol y bydd y bwlch cyrhaeddiad yn yr ysgol ac addysg bellach yn ehangu os na chaniateir lwfansau ar gyfer mynediad gwahaniaethol i ddysgu yn ystod pandemig y Coronafeirws.

> **Rhaid cynllunio a gwerthuso dulliau dysgu newydd yn ofalus i sicrhau nad ydynt yn cynyddu anghydraddoldebau addysgol.**

Mae gwledydd o amgylch y byd yn ystyried sut i addasu arholiadau (Banc y Byd, 2020) – er enghraifft:

- Yn yr Aifft, cafodd arholiadau traddodiadol eu disodli gan brosiectau ymchwil ac, mewn rhai ysgolion, gellid sefyll arholiadau ar-lein trwy blatfform fideo-gynadledda. Er nad yw'r olaf yn pontio'r bwlch digidol, gellid ei ddefnyddio ochr yn ochr ag arholiadau wyneb yn wyneb i hwyluso cadw pellter cymdeithasol pe byddai angen mesurau o'r fath yng Nghymru yn y dyfodol.
- Yn y Ffindir, defnyddir arholiadau electronig fel yr Arholiad Matriciwleiddio Digidol[3] neu'r arholiad mynediad electronig ar y cyd i Brifysgolion y Gwyddorau Cymhwysol a gellid eu haddasu i'w defnyddio yng Nghymru.
- Yn Indonesia, defnyddiwyd dull cyfunol ar gyfer arholiadau. Er enghraifft, disodlwyd arholiadau terfynol ar gyfer dosbarthiadau iau gan brofion ar-lein ac aseiniadau cartref, a/neu penderfynwyd arnynt yn seiliedig ar bortffolio'r myfyriwr a pherfformiad blaenorol yn yr ysgol.

## Datblygiad a chefnogaeth broffesiynol

Mae athrawon wedi gorfod addasu'n gyflym i ddarparu dysgu o bell neu ddysgu cyfunol ochr yn ochr â rheoli materion diogelu a lles a waethygwyd gan y Coronafeirws. Yn gyffredinol, mae datblygiad proffesiynol wedi symud ar-lein neu wedi cael ei ledaenu trwy gymwysiadau ffôn a fideo (Banc y Byd, 2020), ond gall fod rhwystrau ymgysylltu i rai oherwydd llwythi gwaith uchel a'r straen sy'n gysylltiedig â darparu addysg mewn ffyrdd newydd wrth gefnogi anghenion anacademaidd myfyrwyr hefyd. Bydd angen cefnogaeth lles ar weithwyr proffesiynol addysg, yn ogystal â myfyrwyr, oherwydd yr heriau maent wedi bod yn eu hwynebu ers mis Mawrth 2020 (Education Support, 2020).

Gyda modelau dysgu cyfunol yn dod yn norm, mae'n rhaid i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer staff addysgu barhau, gan y bydd angen hyfforddiant ar athrawon a chynorthwywyr addysgu i gaffael y sgiliau a'r hyder i gyflwyno'r cwricwlwm mewn ffyrdd newydd. Gall DPP o ansawdd uchel gael effeithiau cadarnhaol ar ganlyniadau myfyrwyr a gall fod yn ffordd gosteffeithiol o wella cyrhaeddiad (Fletcher-Wood a Zuccollo, 2020).

- Amlygodd adroddiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yr angen am hyfforddiant sgiliau TGCh i athrawon (OECD, 2020). Yn Korea, ymatebodd y Weinyddiaeth Addysg i'r angen hwn trwy greu rhwydwaith o athrawon â sgiliau digidol i gefnogi ac addysgu cymheiriaid.
- Efallai y bydd angen i DPP bellach ganolbwyntio mwy ar arfogi athrawon â'r sgiliau i reoli materion sy'n codi'n amlach oherwydd pandemig y Coronafeirws yn briodol, megis helpu

[3] Gweler: https://www.ylioppilastutkinto.fi/ên/matriculation-examination/digital-matriculation-examination

myfyrwyr a chydweithwyr sy'n profi problemau iechyd meddwl (Alliance for Learning, 2020).

- Yn olaf, fel gyda DPP wyneb yn wyneb, dylai DPP ar-lein fod yn rhaglen barhaus, yn hytrach na sesiynau untro heb ddilyniant (EEF, 2019).

## Goblygiadau polisi

Bydd gweithredu ffyrdd newydd o addysgu a dysgu sy'n effeithiol ac yn deg i bob myfyriwr yn gofyn am gapasiti ychwanegol, ac felly buddsoddiad, o ran staffio. Er bod y rhai sydd â phrofiad fel gweithwyr proffesiynol ym maes addysg yn y sefyllfa orau i lywio y cynllun o ffyrdd newydd o weithio, bydd angen cefnogaeth gan y rhai sydd â hyfforddiant technolegol ac iechyd hefyd.

Rhaid cynllunio a gwerthuso dulliau dysgu newydd yn ofalus i sicrhau nad ydynt yn cynyddu anghydraddoldebau addysgol. Mae'n debyg mai blaenoriaethu addysgu wyneb yn wyneb i bobl ifanc sy'n agored i niwed yw'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau'r bwlch cyrhaeddiad. Bydd hyn yn helpu i oresgyn materion fel allgáu digidol, i ddiogelu pobl ifanc a monitro eu lles. Lle nad yw hyn yn bosibl, mae sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cefnogi gyda'r adnoddau angenrheidiol fel nad ydynt yn llithro'n ôl yn allweddol. Gall adnoddau gynnwys llechi gyda MiFi (dyfeisiau sy'n defnyddio rhwydweithiau ffôn symudol i greu llecyn Wi-Fi), bwyd, a chyswllt rheolaidd ag athrawon a fydd eto yn gofyn am fuddsoddiad pellach mewn addysg.

Mae angen rhaglenni DPP ar-lein sy'n canolbwyntio ar hyfforddi athrawon i ddarparu dysgu cyfunol yn effeithiol er mwyn sicrhau'r effaith gadarnhaol orau ar ddysgu disgyblion. Dylai hyfforddiant hefyd sicrhau bod gan athrawon y sgiliau TGCh a gallu angenrheidiol i gefnogi lles myfyrwyr. Mae'n debygol y bydd galw cynyddol am gwnsela a chymorth iechyd meddwl, ar adeg pan fydd y GIG yn gorfod blaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Gall gwasanaethau ysgol y gellir eu cyrchu'n hyblyg gan staff a myfyrwyr helpu i leihau colledion cyrhaeddiad a chadw gweithwyr addysg proffesiynol.

**Awdur:** Dr Catherine Foster

## Cyfeirnodau


Alliance for Learning (2020). **Post Covid-19 School Recovery CPD Programme**. Cyrchwyd: http://allianceforlearning.co.uk/covid-19/recovery-post-covid-19/post-covid-19-school-recovery-cpd-programme/

Bayrakdar, S., a Guveli, A. (2020). **Inequalities in home learning and schools' provision of distance teaching during school closure of COVID-19 lockdown in the UK.** ISER Working Paper Series. Cyrchwyd: https://www.iser.essex.ac.uk/research/publications/working-papers/iser/2020-09

Borup, J., Jensen, M., Archambault, L., Short, C.R. a Graham, C.R. (2020). **Supporting Students During COVID-19: Developing and Leveraging Academic Communities of Engagement in a Time of Crisis.** Journal of Technology and Teacher Education, 28(2), tt.161-169.

Churchman, A., Mansell, W., a Tai, S. (2020). **A process-focused case series of a school-based intervention aimed at giving young people choice and control over their attendance and their goals in therapy**. British Journal of Guidance & Counselling, 1-22. Cyrchwyd: https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/03069885.2020.1815650?casa_token=DivflidA-SYAAAAA%3AKTB-51WV0UWX5ro-OXDaHx0OSlqIAb0TQuDTMdS9qVilCIKtl2LVJllkCIvkL7bcFrra-RDwvPX_Ng

Cartrefi Cymunedol Cymru (2019). **Gwneud Gwahaniaeth – Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi**. Cyrchwyd: https://icc.gig.cymru/newyddion/cyhoeddiadau/gwneud-gwahaniaeth-tai-ac-iechyd/icc-gwneud-gwahaniaeth-tai-ac-iechyd-yr-achos-dros-fuddsoddi-pdf/

Daniels, H., Thompson, I., Porter, J., Tawell, A. ac Emery, H. (2020). **School Exclusion Risks after**

**COVID-19**. Yn School Exclusion Risks after COVID-19 (tt. 1-9). Cyrchwyd: **http://www.education.ox.ac.uk/wp-content/uploads/2019/11/Daniels-et-al.-2020_School-Exclusion-Risks-after-COVID-19.pdf**

Sefydliad Gwaddol Addysg (2019). **Putting evidence to work: A school's guide to implementation**. Cyrchwyd: **https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Implementation/Professional-Development-Summary.pdf**

Sefydliad Gwaddol Addysg (2020a). **Impact of school closures on the attainment gap: Rapid evidence assessment**. Cyrchwyd: **https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/EEF_(2020)_-_Impact_of_School_Closures_on_the_Attainment_Gap.pdf**

Sefydliad Gwaddol Addysg (2020b). **Remote Learning: Rapid Evidence Assessment**. Cyrchwyd: **https://edtechhub.org/wp-content/uploads/2020/04/Remote_Learning_Rapid_Evidence_Assessment.pdf**

Education Support (2020). **Covid-19 and the classroom: Working in education during the Coronavirus pandemic**. Cyrchwyd: **https://www.educationsupport.org.uk/sites/default/files/resources/covid-19_and_the_classroom.pdf**

E-Estonia (2020). **Estonia and 7 other Nordic countries to share their digital education solutions for free**. Cyrchwyd: **https://e-estonia.com/estonia-nordic-countries-digital-education-for-free/**

Ysgol Gynradd Elmhurst (2020). **Safeguarding during School Closure**. Cyrchwyd: **https://elmhurstprimary.co.uk/home-learning/safeguarding-during-school-closure/**

Fletcher-Wood, H. a Zuccollo, J. (2020). **The effects of high-quality professional development on teachers and students.** Education Policy Institute. Cyrchwyd: **https://epi.org.uk/publications-and-research/effects-high-quality-professional-development/**

Hampton, J. (2020). **COVID-19, home learning and educational inequalities**. Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru. Cyrchwyd: **https://wiserd.ac.uk/news/covid-19-home-learning-and-educational-inequalities**

Sefydliad Joseph Rowntree (2018). **Education in Wales**. Cyrchwyd: **https://www.jrf.org.uk/data/education-wales**

National Center on Education and the Economy (2020). **A step ahead: Estonia emerges as a leader in worldwide distance learning experiment**. Cyrchwyd: **https://ncee.org/2020/04/a-step-ahead-estonia/**

OECD (2020). **A framework to guide an education response to the COVID-19 Pandemic of 2020**. Cyrchwyd: **https://www.hm.ee/sites/default/files/framework_guide_v1_002_harward.pdf**

Ofsted (2020). **COVID-19 series: briefing on schools, October 2020**. Cyrchwyd: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/933490/COVID-19_series_briefing_on_schools_October_2020.pdf**

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol (2020). **Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol o dymor yr hydref 2020.** Cyrchwyd: **https://sewaleseas.org.uk/cymraeg/wp-content/uploads/sites/2/2020/06/Datblygu-dulliau-integredig-i-gefnogi-dysgu-cyfunol.pdf**

Spiers, B. (2020). **How other countries reopened schools during the pandemic – and what the US can learn from them**. The Conversation. Cyrchwyd: **https://theconversation.com/how-other-countries-reopened-schools-during-the-pandemic-and-what-the-us-can-learn-from-them-142706**

Ystadegau ar gyfer Cymru (2019). **Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: ym mis Ionawr 2019**. Cyrchwyd: **https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-737.pdf**

Taylor, C. (2020). **COVID-19 and pupil assessment**. Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol

ac Economaidd Cymru. Cyrchwyd: **https://wiserd.ac.uk/news/covid-19-and-pupil-assessment**

Banc y Byd (2020). **How countries are using edtech (including online learning, radio, television, texting) to support access to remote learning during the COVID-19 pandemic**. Cyrchwyd: **https://www.worldbank.org/en/topic/edutech/brief/how-countries-are-using-edtech-to-support-remote-learning-during-the-covid-19-pandemic**

Topping, K., Douglas, W., a Robertson, D. (2020). **The Effectiveness of Online and Blended Learning from Schools**. Prifysgol Dundee. Cyrchwyd: **https://discovery.dundee.ac.uk/ws/files/51952060/scoping_review.pdf**

UNICEF (2020). **Early opening of schools in Uruguay during the Covid-19 pandemic. Overview and lessons learnt**. Cyrchwyd: **https://www.unicef.org/uruguay/media/3886/file/Early%20opening%20of%20schools%20in%20Uruguay%20during%20the%20COVID-19%20pandemic.pdf**

Cenhedloedd Unedig (2020). **The Sustainable Development Goals Report.** Cyrchwyd: **https://unstats.un.org/sdgs/report/2020/The-Sustainable-Development-Goals-Report-2020.pdf**

Usher, K., Bhullar, N., Durkin, J., Gyamfi, N., a Jackson, D. (2020). **Family violence and COVID-19: Increased vulnerability and reduced options for support**. International Journal of Mental Health Nursing. Cyrchwyd: **https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/inm.12735**

Llywodraeth Cymru (2017). **Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl.** Cyrchwyd: **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf**

Llywodraeth Cymru (2019). **Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2017 i Mawrth 2018** Cyrchwyd: **https://llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebrill-2017-i-mawrth-2018**

Llywodraeth Cymru (2020). **Recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam** Cyrchwyd: **https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html#section-48990**

Young Minds (2020). **Coronavirus: Impact on Young People with Mental Health Needs**. Cyrchwyd: **https://youngminds.org.uk/about-us/reports/Coronavirus-impact-on-young-people-with-mental-health-needs/**

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y Gwasanaeth Sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

**Catherine Foster:** Fosterc6@caerdydd.ac.uk

**Manon Roberts:** manon.roberts@wcpp.org.uk

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG

www.wcpp.org.uk/cy
029 2087 5345
info@wcpp.org.uk
@WCfPP

Cardiff University Prifysgol Caerdydd · UKRI Economic and Social Research Council · Llywodraeth Cymru Welsh Government